

Bruce Griffiths yn Crwydro a Mwydro

(neu Ffoli a phobololi)

Ible'r tro hwn? Adeg y gwres mawr oedd hi, ym mis Mehefin. Cawsem rybudd o gyfarfod blynyddol Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian, yn Sempringham, yng ngwlad y Llynnwys, sef Swydd Lincoln.

Ble mae Sempringham? Prin y'i gwelir ar unrhyw fap bellach, gan i'r abaty a'r pentref, os bu pentref, ddiplannu ers llawer dydd. Canfuwyd nad oedd ymhell y tu hwnt i Stamford, a dyma ladd dau aderyn ag un ergyd.

Ers blynyddoedd buwyd yn cynnal gŵyl ddrama drwy gydol yr haf yn theatr awyr agored plasty Toleshorpe Hall, ger Stamford, a bŵm innau'n dyheu am esgus i fynd yno. Dramâu Shakespeare a lwyfennir yno gan amlaf, ond eleni yn eu plith yr oedd comedi George Farquhar, *The Recruiting Officer* (1706), nas gwelw'n erioed.

I ffwrdd â ni dros bant a bryn felly. Siomwyd ni o'r ochr orau gan olwg gwlad Swydd Lincoln, yn falmaidd wyrddlas, a'r trefi bychain yn daclus a ffyniannus; ac er ei bod hi'n wastad iawn yr olwg, eto bu'n rhaid mynd trwy ardal fryniog a phrydferth y Wolds i gyrraedd pen ein taith. Cawsom ginio mewn steil yn y plasty, a chrwydro'r gerddi dymunol, cyn mynd i'r pafiliwn mawr sy'n cysgodir gynulleidfa, tra bo'r actorion hwythau yn yr awyr agored, ar gyrion coedwig.

Lleolir comedi Farquhar yn Amwythig, cyfeirir yn fynych at rai o nodweddion bywyd y dref, a cheir ambell Gymro ymhlith y cymeriadau. Cafwyd teirawr o ddiddanwch amheuthun - cymaint yn fwy nag a geir o unrhyw gomedï o eiddo Shakespeare, neu dyna fy marn i o leiaf. Gallaf gymeradwyo gŵyl Stamford yn wresog - y tro nesaf bydd yn rhaid inni geisio gweld y dref ei hun! Gellir aros yn ddigon cysurus a rhad yn hostel ieuencid Thurlby gerllaw.

Y Baner y ddraig yn chyhwan yn Lloegr

Drannoeth aethom i'r *Old Ship Inn* yn Pointon ger Sempringham. Rhaid ei bod yn ddiwrnod mawr i Loegr ym myd y bêl-droed, achos 'roedd Iwnion Jacs yn blastar dros hanner y dafarn; ond, chwarae teg iddo, 'roedd y tafarnwr, gŵr o'r Barri, wedi ymorol am lu o faneri'r ddraig hefyd. Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn yr heulwen.

Clywsom ddarlith ynghylch y cloddio a fu gan archeolegwyr i safle'r Abaty. Cafwyd hyd i ddwy fynwent, ac un yw corff Gwenllian druan ymhlith ugeiniau onid cannoedd. Pa un yw hi? Fe gostiai profion DNA fil o bunnoedd y corff!

Aethom draw at y gofeb drawiadol iddi a godwyd gan y Gymdeithas - wysg ei hochr, mae'n union fel lleian. Croesawyd ni i eglwys

yr abaty gan rai o'r plwyfolion. Yr oedd y Gymdeithas wedi paratoi llyfryn o emynau Cymraeg a gyflwynwyd i'r eglwys, ar gyfer ymwelwyr o Gymry: aeth rhywun at yr organ ac yno y buom yn ei morio hi. Rhyfedd meddwl mai yma, drwy gydol ei hoes, hyd ei marw yn 1337 yn 54 blwydd oed, y bu merch Llywelyn ap Gruffydd yn addoli. Ni chawsai fyth mo'i rhyddid, wrth gwrs: buasai gan unrhyw ŵr iddi sail i hawlio coron Gwynedd a chychwyn gwrthryfel. Ni chlywodd hi erioed air o Gymraeg, mae'n debyg, na gweld y wlad o'i chwmpas, na gweld yr un dyn erioed, ond cafodd gan y lleianod a'i magodd wybod a chadw ei henw ei hun: cyfeirir ati fel Wencilian yn nogfennau'r cyfnod, a Wentliane y geilw hi ei hun yn ei llythyr at y brenin yn hawlio'r tâl i'w chynnal.

Annynol, meddwch. Diau; ond mor hawdd a fuasai i Edward gael gwared arni pan oedd hi'n faban, pes mynasai. Wedi'r cwbl, yr oedd hi o'r un waedoliaeth â'r brenin, yn ferch i'w gyfnither Aliénor de Montfort. Tewach gwaed na dŵr, chwedl Saeson. Tybed a wyddai pwy oedd hi? A ŵyr y rhan fwyaf o'r Cymry hynny heddiw?

Pum cyfnither Gwenllian yn cael eu cipio i Loegr

Erys llawer o waith coffa y gellid ei wneud eto; aethpwyd â phum cyfnither Gwenllian, merched bach y tywysog Dafydd, i Loegr. Gwyddys enw un ohonynt, sef Gwladys, yr aethpwyd â hi i gwfaent Six Hills, ger Market Rasen, eto yn Swydd Lincoln. Dengys trigolion yr ardal fangre dybiedig ei bedd, a choed yw yn tyfu o'i gwmpas. Aethpwyd â'r meibion, Owain a Llywelyn ap Dafydd, i garchar am oes ym Mryste.

Yn Amwythig, y diwrnod o'r blaen, dangoswyd imi'r plac sy'n coffau, er nad yw'n manylu arno, y cigyddio bwystfilaid a fu ar 'David III' (Dafydd ap Gruffydd) yno, o achos ei 'high treason': dyna sut y gwêl Saeson hi. Gwelir y plac ar gornel St Mary's Street a Pride Hill. Tybed, hyd yn oed ar ôl dros saith ganrif, a ganiateid heddiw osod cofeb yno, yn dweud sut y gwêl Cymry gwlatgar y peth?

Gwnaeth y Gymdeithas waith ardderchog yn ceisio goleuo'r Cymry ynghylch eu hanes eu hunain - hanes y byddai'n well gan sawl hanesydd, Sais a Chymro, inni beidio â'i glywed. (Bellach, yn ôl a glywais, mae cangen o'r Gymdeithas yn ardal Sempringham!)

Cefais sgwrs â Tony Leaver, aelod blaenllaw o'r Gymdeithas. Sais hynaws, cyfrifiadurwr o Gaergrawnt a ddysgodd Gymraeg yw ef, a gyfieithodd lyfr Anthony Edwards *Marwolaeth Llywelyn ap Gruffydd - Y Gwirionedd* (1987) dan y teitl *The Death of Llywelyn ap Gruffydd - The Truth*. A beth oedd y gwirionedd? Rhaid ichi brynu'r llyfr! I



Cofeb Gwenllian yn Sempringham

ymaelodi â'r Gymdeithas, ac / neu i gael gwybod am ei chyhoeddiadau, ymholer â: Mallt Anderson, 158 Lake Road East, Parc y Rhath, Caerdydd CF23 5NQ, Ffôn: 029 20,753695;

e-bost: donald@andz.freeserve.co.uk

Gwefan:

www.ad-je-leaver.freeserve.co.uk/cydg.htm

Adlodd - melyn moes mwy!

Da cael ymateb i'r *Casglwr*. Yn dilyn ysgrif gampus Rheinallt Llwyd ar wasg Ysgol Dolwyddelan, cefais alwad ffôn gan y Br Esli Roberts, 4, Dolydd Terrace Tanygrisau. Soniodd amdano'i hun yn blentyn yn ysgol Dolwyddelan, yn dysgu gweithio gyda'r wasg, gan ddweud fod ganddo o hyd rai o'r pethau a argraffwyd yno. Dyna esgus imi fynd yn fôl i'm hen gynefin gyda hyn!. Mae cof gennyf glywed gan Dyfed Evans y bu gwasg gan ysgol yn rhywle yn Llŷn. A ŵyr un ohonoch rywbeth o'i hanes? Ar y llaw arall, yn dilyn yr adroddiad a godais o *Private Eye*, ynghylch gwerthu Llyfrgell Coleg Mihangel Sant, yn yr Eglwys Newydd, gan yr Eglwys yng Nghymru, ni chlywais yr un smic pellach, sy'n awgrymu i mi na ellir gwadu'r hanes. Ni chafwyd eto ychwaith unrhyw eglurhad ar y 'galan fawr' y soniwyd amdani yn y gerdd ynghylch ffair Llanllyfni.

Efallai y cofiwch y gair 'pobololi' a'r eglurhad mai enw oedd ar fath o ddiod licoris. Fel y mae hi ryfeddaf! Ymhlith y cannoedd o lyfrau'n sy'n aros i'w darllen acw treuais ar *Poplollies & Bellibones: A Celebration of Lost Words* gan S.K.Sperling (Robson Books, 1978). Dywedir ynddo mai ystyr poplolly yw 'A little darling (from the French poupet)'. Cofnodir y ffurf yn yr *Oxford English Dictionary* fel amrywiad ar y ffurf poplet. Fe'm trawodd ymhellach: tybed a yw *lolipop* (y mae ei darddiad yn ansicr, medd yr *OED*) yn adffurfiad ar poplolly? Mae'r ddau air yn tarddu o'r un cyfnod, diwedd y ddeunawfed ganrif, a gellid deall datblygiad ystyr o 'ferch bert' i 'beth melyn', sef ystyr gynharaf 'lolipop' (Cymharer 'sweetie' a 'sweet').

Colli a choffa Kyffin.

Chwith, er nad annisgwyl, fu clywed am farw ein harlunydd mwyaf. Bu adeg y byddwn yn